



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



Yn y rhifyn hwn

- TAITH BL 1 I'R TRAETH!
- GWEITHDY CODIO "SCRATCH"
- TAFWYL 2026
- SWAP SHOP BRO EDERN
- MABOLGAMPAU - AIL DREFNU
- GWERSI OFFERYNNOL
- BEICATHON!
- DYDDIADAU PWYSIG

In This Issue

- YEAR 1 VISIT TO THE BEACH
- "SCRATCH" CODING WORKSHOP
- TAFWYL
- BRO EDERN SWAP SHOP
- SPORTS DAY - REARRANGED
- INSTRUMENT LESSONS
- BIKEATHON!
- IMPORTANT DATES



DIWRNODAU HMS 2025-26

19.6.26
20.7.26

Dim ysgol i'r disgyblion

INSET DAYS 2025-26

19.6.26
20.7.26

No school for pupils

Gyda 'n Gilydd Fe Lwyddwn | Together We Will Succeed



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



Ymweliad Blwyddyn 1 i Borthcawl!

Ar ddydd Mercher, mwynhaodd ein disgyblion Blwyddyn 1 ymweliad gwych â thraeth Rest Bay, lle cymerasant ran mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a drefnwyd gan Academi Traeth Cymru.

Cafodd y plant amser gwych yn archwilio amgylchedd y traeth ac yn dysgu mwy am y byd naturiol o'u cwrpas. Trwy weithgareddau ymarferol, fe wnaethant ddarganfod ffeithiau diddorol am yr arfordir lleol, bywyd gwyllt, a phwysigrwydd gofalu am ein traethau.

Diolch yn fawr iawn i Academi Traeth Cymru am ddarparu profiad mor gofiadwy ac addysgiadol, ac i'n staff a'n gwirfoddolwyr am gefnogi'r ymweliad.

Rydym yn falch iawn o'r holl blant am eu brwdfrydedd a'u hymddygiad!

Year 1 visit to Rest Bay

On Wednesday, our Year 1 pupils enjoyed a fantastic visit to Rest Bay, where they took part in a range of exciting activities organised by Beach Academy Wales.

The children had a wonderful time exploring the beach environment and learning more about the natural world around them. Through hands-on activities, they discovered interesting facts about the local coastline, wildlife, and the importance of looking after our beaches.

A big thank you to Beach Academy Wales for providing such a memorable and educational experience, and to our staff and volunteers for supporting the visit.

We are very proud of all the children for their enthusiasm and behaviour!





Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



Gweithdy Codio Scratch - Blynnyddoedd 3 a 4

Yr wythnos hon, cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 gyfle cyffrous i gymryd rhan mewn gweithdy codio Scratch a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru.

Yn ystod y sesiwn, bu'r disgyblion yn archwilio hanfodion rhaglenni cyfrifiadurol drwy greu eu hanimeiddiadau a'u gemau rhyngweithiol eu hunain gan ddefnyddio Scratch.

Dysgon nhw sut i drefnu cyfarwyddiadau, dod o hyd i wallau syml, a defnyddio eu creadigrwydd i ddod â'u syniadau'n fyw. Roedd hi'n wych gweld eu brwdfrydedd, eu gwaith tîm a'u sgiliau datrys problemau yn datblygu drwy gydol y gweithdy

Hoffem ddiolch yn fawr i Brifysgol De Cymru am ddarparu profiad mor ysbrydoledig ac ymgysylltiol, a helpodd i sbarduno diddordeb yn sgiliau digidol a chodio ymhlith ein dysgwyr.


Scratch Coding Workshop - Year 3 & 4

This week, our Year 3 and 4 pupils had an exciting opportunity to take part in a Scratch coding workshop delivered by the University of South Wales.

During the session, pupils explored the basics of computer programming by creating their own interactive animations and games using Scratch.

They learned how to sequence instructions, debug simple problems, and use creativity to bring their ideas to life. It was fantastic to see their enthusiasm, teamwork, and problem-solving skills develop throughout the workshop.

We are very grateful to the University of South Wales for providing such an engaging and inspiring experience, helping to spark interest in digital skills and coding among our learners.





Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

Tafwyl

Rydym yn falch iawn o rannu y bydd disgyblion Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn perfformio yn Tafwyl ar ddydd Sul 21 Mehefin am 12:15yp.

A fydddech cystal â chadarnhau argaeledd eich plentyn i gymryd rhan erbyn dydd Gwener 12 Mehefin drwy GroupEd. Bydd hyn yn ein helpu i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer y perfformiad. Gofynnwn yn garedig i chi gwrdd wrth lwyfan yr ysgolion y tu mewn i Gastell Caerdydd erbyn 12:00 er mwyn paratoi ar gyfer y perfformiad am 12:15.

Cofiwch fod Tafwyl eleni yn dychwelyd i'r Castell, a bydd angen i chi ddod i mewn drwy'r fynedfa gefn ym Mharc Bute. I adael y Castell bydd angen i chi fynd allan trwy'r prif fynedfa.

Nid oes angen tocynnau arnoch, gan fod Tafwyl yn ŵyl am ddim i bawb. Gofynnwn i blant wisgo gwisg ysgol lawn i berfformio ac yna gallant newid i ddillad ei hun i fwynhau gweddill y dydd.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.



MEHEFIN 20-21 2026 CAERDYDD

Tafwyl

We are very pleased to share that pupils in Reception, Year 1 and Year 2 will be performing at Tafwyl on Sunday 21 June at 12:15pm.

Please could you confirm your child's availability to take part by Friday 12 June via GroupEd. This will help us finalise arrangements for the performance.

We kindly ask that you meet us by the schools' stage inside Cardiff Castle by 12:00, ready for the performance at 12:15.

Please note that Tafwyl is returning to the Castle this year, and access will be via the rear entrance through Bute Park. The main entrance to the castle will be the exit.


No tickets are required, as Tafwyl is a free festival for all to attend. Pupils will be required to wear school uniform to perform and then change into their own clothes to enjoy the rest of the day,

Thank you very much for your continued support.



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER





Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



Stwnsh Sadwrn, GloWorks,
Heol Porth Teigr,
Bae Caerdydd,
CF10 4GA
(0)2920 550 550
s4C.co.uk

Ydi eich plentyn eisiau cyfle i fod yn rhan o gynulleidfa byw Stwnsh S+dwrn?

Rydym yn awyddus i wahodd disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 i fod yn rhan o gynulleidfa rhaglen deledu 'Stwnsh Sadwrn'. Mae 'Stwnsh Sadwrn' yn raglen llawn hwyl gyda chyflwynwyr y rhaglen – Huw, Lloyd, Jed a Cadi. Bydd y profiad yn gyfle gwyh i'ch plentyn gwrdd â ffrindiau newydd, cwrdd â'r cyflwynwyr, ac i fod yn rhan o raglen deledu byw llawn hwyl, gemau a pheis Stwnsh.

Mae bloc yr haf yn dechrau cyn bo hir! Dyma ddyddiadau'r rhaglenni.

Sadwrn: 16/05/26

Sadwrn: 23/05/26

Sadwrn: 30/05/26

Sadwrn: 06/06/26

Sadwrn: 13/06/26

Sadwrn: 20/06/26

Sadwrn: 27/06/26

Sadwrn: 04/07/26

Sadwrn: 11/07/26

Sadwrn: 18/07/26

Os oes ddiddordeb cysylltwch â ni cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau eich lle. Croeso i chi ffonio, tecsto neu e-bostio!

Bydd angen i'ch plentyn gyrraedd y stiwdio erbyn 7:00 y bore. Mae'r rhaglen yn cael ei darlledu'n fyw o'r stiwdio rhwng 8:00 a 09:30 y bore gyda seibiannau o 15 munud bob hyn a hyn. Bydd angen i chi gasglu eich plentyn am 09:30am.

Mae croeso i chi gysylltu gyda'r tîm ar unrhyw adeg os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Diolch yn fawr iawn i chi,

Bethan Cross | Steffan Thompson | Anna Mared
stwnsh@boomcymru.co.uk



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



Stwnsh Sadwrn, GloWorks,
Heol Porth Teigr,
Bae Caerdydd,
CF10 4GA
(0)2920 550 550
S4C.co.uk

Does your child want to be a part of Stwnsh S+dwrn's live studio audience?

We would like to invite year 4, 5 and 6 pupils to be part of the live audience for S4C's Saturday morning TV programme for children called 'Stwnsh Sadwrn'. 'Stwnsh Sadwrn' is a fun filled programme presented by Huw, Lloyd, Jed and Cadi. It will be a fantastic experience for your child to meet the presenters, make new friends, and be part of a live TV programme, full of fun, games and Stwnsh pies!

The summer block starts soon! Here are the dates of the programmes.

Saturday: 16/05/26

Saturday: 23/05/26

Saturday: 30/05/26

Saturday: 06/06/26

Saturday: 13/06/26

Saturday: 20/06/26

Saturday: 27/06/26

Saturday: 04/07/26

Saturday: 11/07/26

Saturday: 18/07/26

If your child is interested, please contact us by phone or email on the details below to secure your child's place.

Your child will need to arrive at the studio by 7:00am, and they will need to be collected at 09:30am. The programme will be live on S4C from 8:00am to 09:30am with intermittent breaks of about 15 minutes during the two hours.

Please don't hesitate to contact the team if you have any questions about the programme.

Thank you very much, Diolch

Bethan Cross | Steffan Thompson | Anna Mared

stwnsh@boomcymru.co.uk

07917636672



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



Cyfarfod gyda Arweinwyr Bro Edern - Blwyddyn 5

Ar ddydd Mawrth, 30ain o Fehefin, rhwng 3:00–3:45yp, bydd arweinwyr Ysgol Bro Edern yn ymweld â'n hysgol. Mae hwn yn gyfle gwych i rieni Blwyddyn 5 ofyn unrhyw gwestiynau ynghylch pontio eich plentyn i'r ysgol uwchradd.

Cynhaliwyd sesiwn debyg y llynedd ac roedd rhieni'n ei chael yn hynod o ddefnyddiol ac addysgiadol. Bydd digon o amser i ofyn cwestiynau ac i gael gwybodaeth glir am y broses bontio.

Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yno.

Siop Cyfnewid Gwisg – Ysgol Bro Edern

Diolch i bawb ddaeth i'r "Siop Swap" ar gyfer gwisg Ysgol Bro Edern. Braf oedd gweld cymaint ohonoch yno yn gwneud y mwyaf o'r cyfle. Diolch arbennig i Miss Eleri Thomas o Fro Edern am ei chefnogaeth ac i Mrs Mullane am gydlynw'r digwyddiad.



Meeting with Bro Edern Leaders - Year 5 Pupils

On Tuesday, 30th June, between 3:00–3:45pm, leaders from Ysgol Bro Edern will be visiting our school. This is a great opportunity for Year 5 parents to ask any questions about your child's transition to secondary school.

We held a similar session last year, and parents found it extremely informative and helpful. There will be plenty of time for questions and for gaining a clear understanding of the transition process.

We look forward to seeing you there.

Ysgol Bro Edern Uniform Swap Shop

A huge thank you to all of you who attended our "Swap Shop" for the Bro Edern uniform. It was great to see so many of you present and taking advantage of this fantastic opportunity. A special thanks to Miss Eleri Thomas for her work and to Mrs Mullane for co-ordinating the event.





Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

Mabolgampau Meithrin a Derbyn

Oherwydd y tywydd gwael diweddar, sydd i fod i barhau tan y penwythnos, rydym wedi penderfynu aildrefnu'r digwyddiadau hyn. Rydym yn deall bod y rhan fwyaf ohonoch yn gwneud trefniadau ac yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer yr achlysuron hyn, ac rydym yn wirioneddol ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a allai hyn achosi. Fodd bynnag, rydym am sicrhau bod y plant yn gallu mwynhau eu diwrnodau chwaraeon yn yr amodau gorau posibl.

Mae'r dyddiadau newydd fel a ganlyn:

- Diwrnod Chwaraeon Dosbarth Derbyn: Dydd Llun, 15 Mehefin am 1:15pm
- Diwrnod Chwaraeon y Meithrin: Dydd Iau, 18 Mehefin (yr un amseroedd ar gyfer sesiynau bore a phrynhawn)

Diolch yn fawr am eich dealltwriaeth a'ch cefnogaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at eich croesawu ar y dyddiadau newydd, a gobeithio am dywydd llawer gwell!



Nursery and Reception Sports Days

Due to the recent poor weather, which is forecast to continue until the weekend, we have made the decision to reschedule these events. We understand that many of you make arrangements and take time off work for these occasions, and we sincerely apologise for any inconvenience this may cause. However, we want to ensure the children can enjoy their sports days in the best possible conditions.

The new dates are as follows:

- Reception Sports Day: Monday 15th June at 1:15pm
- Nursery Sports Day: Thursday 18th June (same timings for morning and afternoon nursery sessions)

Thank you for your understanding and continued support. We look forward to welcoming you on the new dates and hope for much improved weather!



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



Gwersi Offerynnol

Ar fore Llun cawsom ymweliad gan y delynores Izzy Hill, a fydd yn cynnig gwersi telyn o fis Medi ymlaen.

Os hoffech gofrestru, ewch i'r wefan ganlynol:

<https://www.cfmusiceducation.co.uk/>

Mae modd dewis offerynnau cerddorol eraill hefyd. Os ydych yn deulu incwm isel, mae cymorth a gostyngiadau ar gael ar gyfer cost y gwersi.

Holiadur Rhieni a Gwarcheidwaid - Haf 2026

Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r holiadur isod er mwyn i ni ddefnyddio'ch adborth i lywio ein Cynllun Gwella Ysgol ar gyfer 2026-27. Diolch yn fawr.

Holiadur Haf 2026



Instrument Lessons

Yesterday morning we were visited by the harpist Izzy Hill, who will be offering harp lessons from September.

If you would like to sign up, please visit:

<https://www.cfmusiceducation.co.uk>

You can also choose other musical instruments. If you are a low-income family, support and discounts are available for the cost of lessons.

Parents & Guardians Summer Survey

We would really appreciate you taking the time to complete this survey. Your feedback will help us shape our School Improvement Plan for 2026-27. Thank you.

Summer Survey 2026



CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

Beicathon - 3ydd Gorffennaf

Rydym yn cynnal Beicathon ar y 3ydd o Orffennaf 2026 i helpu codi arian ar gyfer gwella ein hardaloedd awyr agored. Drwy gydol y dydd, bydd pob dosbarth o'r Feithrin hyd at Flwyddyn 6 yn cymryd rhan, gan feicio'n barhaus am bellter penodol yn eu tro cyn trosglwyddo i'r dosbarth nesaf er mwyn cyfrannu at gyfanswm yr ysgol gyfan.

Rydych i gyd bellach wedi derbyn ffurflenni noddi ac rydym yn annog pob disgybl yn garedig i gasglu nawdd am eu hymdrechion. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen noddi papur traddodiadol a chasglu arian parod, neu gyfrannu yn uniongyrchol drwy Group Ed.

Ein nod yw codi £5,000 (Beicathon a Ffair) ond gofynnwn am gyfraniad o unrhyw swm, yn fach neu'n fawr!

Diolch o galon am eich cefnogaeth barhaus. Rydym yn edrych ymlaen at Feicathon wych!

Ein Senedd Ni

Cafodd dau o gynrychiolwyr Senedd ein hysgol fore pleserus iawn ar ddydd Mercher, y 10fed o Fehefin yn Senedd Cymru. Roeddynt yn lwcus iawn i gwrdd a Lloyd Lewis seren Rhaglen Stwnsh Sadwrn a wnaeth weithdy Rap gyda'r holl gynrychiolwyr!

Y gobaith yw i bob un Ysgol Gymraeg greu fideo byr yn perfformio Rap a fydd yn cael ei darlledu ar Stwnsh yn fuan!



Bikeathon Fundraiser - 3rd July

On the 3rd of July 2026 we will be raising money to improve our outdoor areas.

Throughout the day, all classes from Nursery to Year 6 will participate, taking in turns to continuously cycle a set distance, before handing over the next class, which will contribute to our whole-school total.

You have all by now received the sponsorship forms and we kindly encourage all pupils to gather sponsorship for their efforts. Families may choose to use the traditional paper sponsor form and collect cash donations, or they may prefer to donate directly through Group Ed.

Our target is £5000 (Bikeathon and School Fair) therefore every contribution, big or small, will help.

Thank you in advance for your support. We look forward to a fantastic Bikeathon!

Ein Senedd Ni

Two of our School Senedd representatives had a very enjoyable morning on Wednesday 10 June at the Senedd in Cardiff Bay. They were very lucky to meet Lloyd Lewis, star of the Stwnsh Sadwrn programme, who led a fun rap workshop with all the representatives.

The aim is for every Welsh-medium school to create a short video performing a rap, which will be broadcast on Stwnsh soon!



SIARTER IAITH



Siarter iaith / Welsh Language Charter

Patrwm iaith yr Wythnos / Language Pattern

Yn Sblot/Tremorfa ti'n byw? (Do you live in Splott/Tremorfa?)
Ie/Nage (Yes/No)

Her / Challenge

O Gaerdydd mae e'n dod/ hi'n dod... (She/He comes from Cardiff) Ie/Nage (Yes/ No)

Testun Trafod / Discussion Topic

Dyfeisiwch flâs hufen-iâ newydd
(Invent a new ice-cream flavour)

Cân yr wythnos / Song of the week

Cordia - Celwydd

<https://youtu.be/6HFuU5v8jHM?si=EcNjortRaWvYBxde>

Idiom yr Wythnos / Idiom of the Week

Gwell hwyr na hwyrach
(Better late than never)





CALENDR

Mehefin / June

Beth?	What?	Dyddiad / Date	Amser / Time
Taith Blwyddyn 1 – Beach Academy Rest Bay, Porthcawl	Year 1 Trip - Beach Academy Rest Bay, Porthcawl	10.6.26 Aildrefnu / Re-arranged	Trwy'r dydd / All day
Taith y Derbyn Mountain View Ranch	Reception Visit - Mountain View Ranc	12.6.26	Trwy'r dydd / All day
Mabolgampau'r Derbyn – Ysgol Glan Morfa	Reception Sports Day – Ysgol Glan Morfa	15.6.26	Bore / Morning 09:00 – 10:30
Wythnos Ffoduriaid / Refugee Week 15-19 Mehefin / June			
Criced yr Urdd – Bl 3 a 4	Urdd Cricket – Years 3 & 4	16.6.26 Ail drefnu / Re-arranged	Trwy'r dydd / All day
Mabolgampau'r Meithrin – Ysgol Glan Morfa	Nursery Sports Day – Ysgol Glan Morfa	18.6.26 Ail drefnu / Re-arranged	Meithrin Bore / Morning Nursery – 9-10am Meithrin Pnawn / Afternoon Nursery 1.15pm - 2.15
Diwrnod HMS – Clwstwr Bro Edern	Bro Edern Cluster INSET Day	19.6.26	Trwy'r dydd / All day
Derbyn, 1 a 2 yn Canu yn Tafwyl	Reception, Year 1 & 2 singing in Tafwyl	21.6.26 (Sunday 12.15)	Dydd Sul / Sunday 12:15
Ymweliad Blwyddyn 3 i Fae Caerdydd	Year 3 Visit to Cardiff Bay	25.6.26	Trwy'r dydd / All Day
Diwrnodau Pontio Bl 6 i Fro Edern	Year 6 Transition Day Bro Edern	25 & 26.6.26	Trwy'r dydd / All day

Wythnos Calon Lan / Healthy Heart Week
29 Mehefin/June - 3ydd o Orfennaf/July



CALENDR

Gorffennaf / July

Beth?	What?	Dyddiad / Date	Amser / Time
Ffair Haf	Summer Fayre	1.7.26	15:00 - 17:00
Beicathon! Her Noddedig	Bikeathon! Sponsored Event.	3.7.26	Trwy'r dydd / All day
Gwersi Nofio Blwyddyn 3	Year 3 Swimming Lessons	6.7.26 – 17.7.26	10:15 -11:00
Sioe Diwedd Blwyddyn yr Ysgol Uchaf – Ysgol Bro Edern	Upper School End of Year Show – Ysgol Bro Edern	9.7.26	17:00
Taith i Ddwr Cymru - Blwyddyn 2	Year 2 Visit to Welsh Water	10.7.26	Trwy'r dydd / All day
Taith "Hwyl" Blwyddyn 6	Year 6 "Fun" Visit	13.7.26	Trwy'r dydd / All day
Rygbi ar y Traeth - Ynys y Bari	Rugby on the Beach - Barry Island	14.7.26	Trwy'r dydd / All day
Gweithdy Dawns Dosbarth Derbyn	Reception Class Dance Workshop	14.7.26	Bore / Morning
Ymweliad Blynnyddoedd 4 a 5 i Sain Ffagan	Years 4 and 5 visit to St Fagans	16.7.26	Trwy'r dydd / All day
Diwrnod Olaf y Tymor (gemau bwrdd)	Last Day of Term (board games)	17.7.26	Trwy'r dydd / All day

Gwyliau'r Haf / Summer Holidays